



Bwrdd Diogelu Rhanbarthol
Caerdydd a Bro Morgannwg
Gweithdrefnau
Diogelu Cymru

'Beth sy'n wahanol?'
Diogelu Plant

Canllaw Cyflym ar
Newidiadau Allweddol

O fewn y gweithdrefnau plant newydd, mae llawer o'r newidiadau yn ymwneud â'r pwyslais a roddir ar agweddau fel cyd-gynhyrchu, canolbwyntio ar yr unigolyn, eiriolaeth, ymarfer myfyriol a barn ymarferwyr ac ati, yn hytrach na'r broses o ddiogelu sy'n parhau i fod yn ddigyfnewid i raddau helaeth. Cyflwynwyd nifer o dermau newydd hefyd ('Adrodd', 'Adroddwr', 'Cydlynnydd Arweiniol', 'Ymarferwr Arweiniol' ac ati).

Mae rhai agweddau ar y gweithdrefnau newydd yn dal i fod yn agored i rywfaint o ddehongli, felly os yw unrhyw un sy'n darllen y canllaw hwn yn pryderu am unrhyw wybodaeth a ddarperir, cysylltwch ag Uned Diogelu Busnes Caerdydd a Bro Morgannwg fel y gellir dilyn unrhyw faterion neu byrderon. BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk

Mae'r prif newidiadau a amlygir yn y 'Canllaw Cyflym' hwn wedi'u nodi gan grŵp gorchwyl o ymarferwyr diogelu Gwent ac maent wedi cael eu haddasu ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg, diolch i Fwrdd Diogelu Gwent.

Adran 1

EGWYDDORION DIOGELU AC ARFERION EFFEITHIOL: PLANT

Mae'r adran hon yn amlygu'r egwyddorion diogelu, sy'n sail i'r ddeddfwriaeth, y canllawiau a'r gweithdrefnau. Mae'n nodi sut mae arferion effeithiol yn fwyaf tebygol o ddigwydd os oes cysondeb ym mhob un o'r uchod. Darperir diffiniadau o blant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso yn yr adran hon, yn ogystal ag arwyddion a dangosyddion cam-drin.

Mae diogelu effeithiol yn mynnu bod pob ymarferwr a sefydliad yn chwarae eu rhan yn y broses ac yn gyfarwydd â gweithdrefnau eu sefydliad ac yn eu dilyn. Mae'r canllaw '*Ymdrin ag Achosion unigol*' yn disgrifio'r egwyddorion a ddylai fod yn sail i systemau diogelu ar gyfer plant sy'n wynebu risg.

Newidiadau/symudiadau allweddol yn yr ymarfer:

- Cyflwyno Cam-drin Seicolegol ac Ariannol fel categorïau ar wahân o fewn gweithdrefnau'r plant
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn amlygu risgiau ychwanegol sy'n gysylltiedig â Chamfanteisio Troseddol (CCS), Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) Radicaleiddio, Anffurfio Organau Cenedlu Benywod a Chaethwasiaeth Fodern
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn mynnu y dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc fabwysiadu dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn; hawliau'r plentyn sydd bwysicaf oll. Rhaid ceisio barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn er mwyn sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed.
- Wrth ystyried lles gorau'r plentyn, cyn belled ag y bo'n rhesymol ac yn ymarferol dylid ystyried eu barn.
- Rhoddir pwyslais ar sicrhau bod gan bob unigolyn sy'n gweithio gyda phlant ran i'w chwarae yn y gwaith o ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc.
- Mae'r gweithdrefnau'n mabwysiadu term '*Ymarferwyr*' ar gyfer pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc neu sy'n ymwneud â nhw (gan gynnwys gweithwyr proffesiynol, gwirfoddolwyr di-dâl a chyflogaeth am dâl)
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn pwysleisio ei bod yn ddyletswydd ar bawb i ddiogelu plant, ac mae unrhyw berson sydd mewn cysylltiad â phlentyn sy'n wynebu risg, neu'n gweithio gydag ef, yn gyfrifol am drefnu gwasanaethau ar gyfer y plentyn hwnnw er mwyn sicrhau ei ddiogelwch.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn hyrwyddo cydgynhyrchu rhwng asiantaethau a gwasanaethau i sicrhau bod y plentyn/person ifanc yn cael gofal a chymorth priodol.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn pwysleisio ar bwysigrwydd cyd-gynhyrchu gyda'r plentyn/person ifanc, gan ddatblygu perthynas waith gyda'r plentyn, y person ifanc a'r teulu (yn unol â '*Beth sy'n Bwysig i'r Plentyn a'r Teulu*' y *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant*).

- Mae'r gweithdrefnau newydd yn cyflwyno Cynllun Gofal a Chymorth fel bo'r angen i fynd i'r afael ag anghenion y plentyn/person ifanc, gan gynnwys ei gadw'n ddiogel os yw'n profi a/neu'n debygol o brofi niwed sylweddol parhaus.
- Mae Gofal a Chymorth yn dal i fod yn berthnasol i fodloni unrhyw angen na chaiff ei fodloni os canfyddir nad yw'r plentyn/person ifanc mewn perygl o niwed sylweddol.
- PPNau – Mae'r gweithdrefnau newydd yn nodi bod disgwyl i ymarferwyr asesu plant a'u teuluoedd yn drylwyr er mwyn ystyried effaith Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (PPNau) a allai fod wedi effeithio ar allu rhieni i fodloni anghenion y plentyn/person ifanc.
- Mwy o bwyslais ar gymorth cynnar ac atal er mwyn lleihau'r angen am ymholiadau ac ymyriadau diogelu.

Adran 2

Y DDYLETSWYDD I ADRODD AM BLENTYN SY'N WYNEBU RISG O GAMDRINIAETH, ESGEULUSTOD A/NEU NIWED

Nid oes unrhyw newidiadau mawr o ran y Ddyletswydd i Adrodd gan fod hyn wedi bod yn ofyniad ers sawl blwyddyn ac mae'r arfer presennol yn adlewyrchu hyn i raddau helaeth. Mae'r gweithdrefnau newydd yn mabwysiadu rhai termau newydd, ac yn nodi cyfrifoldebau 'Adroddwr' a Swyddogaethau Penodol o ran Diogelu'r unigolyn sy'n symud ymlaen. Mae'r gweithdrefnau newydd yn nodi'n glir bod y ddyletswydd i adrodd yn ymestyn y tu hwnt i'r cyd-destun gwaith. Rhoddwyd pwyslais ar arferion sy'n cefnogi'r gwaith o gynnal/datblygu perthynas waith gadarnhaol rhwng plant/pobl ifanc a'u teuluoedd sy'n cynnwys cydgynhyrchu, a chyd-gynhyrchu a chydweithio ag asiantaethau eraill. Mae'r Awgrymiadau Arfer newydd yn cefnogi cynnal ymgysylltiad cadarnhaol rhwng plant/pobl ifanc a'u teuluoedd ymarferwyr. Mae'r gweithdrefnau'n amlygu defnyddio ymarfer myfyriol ac ymarferwyr yn defnyddio eu barn er mwyn galluogi gwell canlyniadau i blant/pobl ifanc.

Newidiadau/symudiadau allweddol yn yr ymarfer:

- Mae'r term 'Adrodd' wedi'i fabwysiadu yn lle 'Atgyfeirio'
- Mabwysiadwyd y term 'Adroddwr' (gweler Adran 3, Rhan 1) ac mae'n cyfeirio at y person sy'n gwneud atgyfeiriad
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn tynnu sylw at y ffaith y gall camdriniaeth ddigwydd mewn unrhyw leoliad e.e. gweithgareddau cymunedol, cyfleusterau preswyl, clybiau, ar-lein neu unrhyw lwyfan cyfryngau cymdeithasol.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn cyflwyno'r Person Diogelu Dynodedig (PDD) - dylai fod PDD ym mhob asiantaeth y tu allan i'r Awdurdod Lleol (a threfniadau mewnol amlinellol ar gyfer gyfrifoldebau PDD wedi'u datganoli mewn polisi diogelu). Bydd angen i bob aelod o staff wybod pwy yw PDD y sefydliad a/neu at bwy arall y gallant fynd i gael cymorth a chyingor os yw cyfrifoldebau'r PDD wedi'u datganoli – yn yr Awdurdod Lleol, y Swyddog Dynodedig ar gyfer Diogelu (SDD, SPALI yn flaenorol) fydd yn gymwys.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn nodi cyfrifoldebau ar gyfer rôl y PDD.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn awgrymu os nad yw PDD y sefydliad neu berson arall mewnol ar gael, dylai ymarferwyr ofyn am gymorth/trafod pryderon gyda'r Awdurdod Lleol (ALI).
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn nodi cyfrifoldebau'r 'Adroddwr' (yr atgyfeiriwr gynt).
- Dylid trafod unrhyw ansicrwydd ynghylch adrodd am bryder gyda'r Awdurdod Lleol.
- Mae'r cyfrifoldeb am gyflwyno adroddiad (atgyfeirio) yn aros gyda'r ymarferydd, hyd yn oed os yw'n trafod gyda'r PDD, neu'r Awdurdod Lleol - ni ddylid cymryd yn ganiataol bod trafodaeth ar lafar â'r PDD yr ALI ac ati yn ddigonol.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn dangos y dylai'r ymarferydd sy'n adrodd (atgyfeirio) geisio cael caniatâd rhiant neu ofalwr; mae hyn yn cefnogi perthynas waith gadarnhaol rhwng plant/pobl ifanc a'u teuluoedd.
- Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â cheisio caniatâd, dylid cynnal trafodaeth gyda'r ALI.

- Mae'r gweithdrefnau newydd yn cynnig arweiniad clir ar geisio caniatâd:
'Dylai Ymarferwyr geisio cael caniatâd y rhieni i hyrwyddo partneriaeth waith effeithiol gyda'r teulu.

'Dylid ymgynghori â phlant, os ydynt yn ddigon cymwys, a gofyn am eu caniatâd. Mae'n bwysig cynnwys plant yn y broses cyn gynted â phosibl i sicrhau y caiff eu dymuniadau a'u teimladau eu hystyried pan fo'n bosibl ac er mwyn osgoi eu gwneud yn 'destun pryder' yn unig.

'Mae ar ymarferwyr ddyletswydd i adrodd am achosion o gam-drin ac esgeulustod gyda neu heb gydsyniad y plentyn. Nid yw hyn yn golygu na ddylent geisio cydsyniad.'

Gellir diystyru dymuniad plentyn a rhiant i beidio â gwneud adroddiad os yw ymarferwyr yn ystyried bod dal angen gwneud adroddiad.'

Mae'r gweithdrefnau'n rhoi arweiniad ynghylch achosion lle efallai na fyddai'n briodol ceisio caniatâd y rhieni:

- y posibilrwydd y byddai'n rhoi'r plentyn mewn rhagor o berygl;
- y posibilrwydd y caiff plentyn ei fygwth neu ei orfodi i ddweud dim;
- tebygrwydd cryf y câi tystiolaeth bwysig ei dinistrio/colli;
- y rhiant yn cael ei adnabod fel y camdriniwr honedig;
- y plentyn ddim am i'r rhiant fod yn gysylltiedig ar y cam hwnnw, ac mae'n gymwys i wneud y penderfyniad hwnnw;
- os yw er budd y cyhoedd.

Dylai ymarferwyr drafod a yw'n briodol ceisio cydsyniad gan y plentyn a'r rhieni gyda PDD yr asiantaeth. Os penderfynir peidio â gofyn am gydsyniad, rhaid cofnodi'r penderfyniad hwn.

- Ni ddylai ymarferwyr 'ei gadael hi i aelod y cyhoedd gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol na chwaith ei gynghori i gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol yn uniongyrchol.' Mae ar ymarferwyr Ddyletswydd i Adrodd am bryderon a godir gan aelod o'r cyhoedd. Mae ar ymarferwyr gyfrifoldeb i adrodd am unrhyw bryderon y cânt wybod amdanynt gan y cyhoedd yn y gwaith ac yn eu bywyd preifat. Mae'r gweithdrefnau'n cynnig arweiniad ychwanegol ar ymateb i aelodau o'r cyhoedd sy'n trafod pryder diogelu.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn tynnu sylw at y ffaith bod y ddyletswydd i gyflwyno adroddiadau yn ymestyn y tu hwnt i'r cyd-destun gwaith os daw ymarferydd i wybod am ymddygiad cyfaill, aelod o'r teulu neu gymydog sydd hefyd yn ymarferydd, rhaid iddo roi gwybod am ei bryderon, ni waeth a yw'r plentyn/person ifanc eisoes yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol

Camau/gwaith a nodwyd:

Mae angen eglurhad ychwanegol am yr amserlen a nodwyd yn y gweithdrefnau newydd ar gyfer cynnull cynhadledd amddiffyn plant, h.y. o fewn 15 diwrnod gwaith wedi'r cyfarfod trafod strategaeth a benderfynodd fod angen ymholiadau Adran 47. Yn hytrach na'r sefyllfa flaenorol, sef cyn pen 15 diwrnod gwaith wedi'r drafodaeth strategaeth, neu'r drafodaeth/cyfarfod strategaeth ddiwethaf, os oedd mwy nag un, a gychwynnai'r ymholiadau adran 47 amddiffyn plant.

Adran 3 Rhan 1

YMATEB I ADRODDIAD AM BLENTYN SY'N WYNEBU RISG O GAEL EI NIWEIDIO, CAM-DRIN A/NEU EI ESGEULUSO

Mae'r adran hon yn cynnig arweiniad ar ymateb i adroddiad – gan gynnwys amlinellu rôl y sawl sy'n Cofnodi'r Adroddiad, cysylltu â'r heddlu a nodi'r broses ar gyfer ymateb i adroddiad – mae hyn yn cynnwys ymholiadau A47 a'r broses ar gyfer trafodaeth/cyfarfod strategaeth, yn ogystal â gweithdrefnau mewn perthynas â sefyllfaoedd cymhleth.

Newidiadau/symudiadau allweddol yn yr ymarfer:

- Dylai'r Awdurdod Lleol gydnabod derbyn adroddiad yn ysgrifenedig o fewn 7 diwrnod gwaith.
- Bydd aelodau'r cyhoedd yn cael cydnabyddiaeth o dderbyn eu hadroddiad o fewn amserlen briodol.
- Gall y sawl sy'n Cofnodi'r Adroddiad (h.y. Tîm Gwybodaeth, Cyngor ac Asesu, tîm MASH ac ati) ofyn am wybodaeth gan ymarferwyr a gwasanaethau eraill er mwyn cael digon o wybodaeth i benderfynu sut i wneud penderfyniadau; mae dyletswydd ar ymarferwyr i gydweithredu a darparu gwybodaeth dan adran 164 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Dylid penderfynu ar ôl cael yr adroddiad (gan ystyried yr holl wybodaeth) a yw anghenion y plentyn yn ddigonol ar gyfer gofal a chymorth, os felly, dylid asesu'r plentyn dan ran 3 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- RHAID gweld y plentyn YR UN DIWRNOD os:
 - Adroddir ei fod wedi dioddef o anaf corfforol;
 - Bu datgeliad o gam-drin rhywiol a/neu bydd y plentyn yn dychwelyd i sefyllfa a allai beri risg;
 - Mae'r plentyn eisoes yn destun Cynllun Gofal a Chymorth Amddiffyn Plant.
 - Mae'r plentyn wedi cael ei adael.
 - Mae'n dioddef o esgeuluso difrifol neu risg iechyd difrifol arall
- Rhaid i'r Awdurdod Lleol a'r Heddlu gytuno a ddylid dychwelyd y plentyn adref.
- Os nad yw plentyn wedi'i weld ar yr un diwrnod, RHAID cofnodi'r penderfyniad hwn ar ffeil y plentyn.
- Dylid hysbysu rhieni/gofalwyr y plentyn/person ifanc ynghylch canlyniad yr adroddiad perthnasol ac mae angen cydsyniad i gychwyn asesiad dan Ran 3 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant oherwydd bod anghenion gofal a chymorth wedi'u nodi
- Rhaid ystyried plant eraill yn y cartref, ac oedolion sy'n wynebu risg.
- Dylid ystyried a ellir rhoi cynllun Gofal a Chymorth ar waith

Cyfarfod Strategaeth ac Ymchwiliad A47

- Pan fo pryder yn ymwneud ag Ymddygiad Rhywiol Niweidiol gan un plentyn tuag at un arall, dylid cynnal cyfarfodydd strategaeth ar gyfer pob plentyn.
- Rhaid cadw cofnod o'r drafodaeth/cyfarfod strategaeth ac mae angen rhannu'r wybodaeth hon o fewn 1 diwrnod gwaith (o gymharu â 5 diwrnod gwaith fel yr amlinellir yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan).
- Mae'r gweithdrefnau'n cyflwyno amserlen ar gyfer ymholiadau cynllunio amlasiantaethol h.y. yn nodi pwy sy'n gwneud beth, mae'r gweithdrefnau newydd yn fwy manwl ynghylch cynllunio ac ymchwilio, profiad byw'r plentyn (yn wahanol i'r Gweithdrefnau Amddiffyn).
- Y Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â'r cyfrifoldeb pennaf am yr ymholiadau. Dylai'r gweithiwr cymdeithasol sy'n arwain yr ymholiadau fod yn gymwys ac wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol. Dylai hefyd gael ei oruchwylio'n briodol.
- Mae ar ymarferwyr eraill megis yr heddlu, gweithwyr iechyd, addysg a phartneriaid perthnasol eraill ddyletswydd i gydweithio a helpu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflawni eu ymholiadau.
- Rhaid i'r broses o rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau aml-asiantaeth fod yn angenrheidiol ac yn gymesur, ond yn ddigonol, yn amserol, yn ddiogel ac wedi'i chofnodi h.y. cofnodi'r wybodaeth am yr hyn a rannwyd a pham yn ysgrifenedig.
- Mae disgwyl i bob ymarferydd gymryd perchnogaeth o'r wybodaeth y mae wedi'i chyfrannu at yr ymholiad A47, a dylai sicrhau bod y riant/rhieni a'r plentyn/plant yn ymwybodol o'r hyn sydd wedi cael ei gynnwys.
- Dylid cadw cyn lleied â phosib o wybodaeth gyfrinachol na ellir ei rhannu gyda'r teulu a/neu aelodau penodol o'r teulu, a dylai fod rheswm clir dros beidio â rhannu'r wybodaeth honno. Mae hyn yn ymestyn i ymholiadau A47 a'r ymchwiliad.

Archwiliadau Meddygol

- Mae'r amserlen ar gyfer cynnal archwiliad meddygol lle bu honiad o gam-drin rhywiol wedi'i hepgor o'r gweithdrefnau newydd.
- Dylid cynnal asesiad o'r plentyn gan Baediatregydd â chymwyseddau Lefel 3 yn unol â Diogelu Plant a Phobl Ifanc.
- O ran diffyg caniatâd rhieni, mae'r gweithdrefnau newydd yn cyfeirio at Orchymyn Asesu Plant a Gorchymyn Amddiffyn Brys (GAB) y gellir eu gwneud a'u cyfarwyddo gan y llys i rieni gydweithredu.
- Nid yw'r Adroddiad Meddygol yn dilyn yr archwiliad yn rhoi amserlen ar gyfer ysgrifennu'r adroddiad hwn mwyach.

Ymholiadau Adran 47: dadansoddi a gwneud penderfyniadau

- Mwy o bwyslais ar ddadansoddi gwybodaeth, a ddylai ystyried pryderon yn ymwneud ag ymarferydd, materion sy'n effeithio ar iechyd a lles y plentyn ac ansawdd ei brofiad byw.
- Mwy o bwyslais ar beth yw dymuniadau a theimladau'r plentyn, y cryfderau a nodwyd (a oes digon o 'ffactorau amddiffynnol') i atal niwed i'r plentyn yn y tymor hir.
- Mae'n cyflwyno ystyriaeth o ffactorau cymdeithasol-economaidd sy'n effeithio ar y plentyn a'i deulu, yn ogystal â materion yn ymwneud ag oedolion sy'n effeithio ar y gallu i fagu plant.

Defnyddio dadansoddiad A47 a gwneud penderfyniadau:

- Mae'r gweithdrefnau newydd yn cynnig arweiniad ychwanegol ar ffordd asiantaethau o gofnodi penderfyniadau A47 a phenderfyniadau allweddol, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn adlewyrchu'r broses ymholiadau amddiffyn plant yn llawn
- Mae nodiadau breision yr ymarferydd yn brawf o beth ysgrifennwyd ar y pryd, felly ni ddylid eu dinistrio pan mae'r manylion yn cael eu cofnodi'n fwy ffurfiol, dylid eu cadw'n ddiogel rhag ofn bod eu hangen mewn unrhyw gamau cyfreithiol sy'n dilyn.

Adran 3 Rhan 2

PENDERFYNU A CHYNADLEDDAU AMDDIFFYN PLANT CYCHWYNNOL

Mae'r gweithdrefnau newydd yn rhoi mwy o bwyslais ar ymgysylltu â'r plentyn a'i deulu yn y broses hon. Mae perthynas yn fwyaf tebygol o ddatblygu os yw rhieni'n cael eu trin â pharch, empathi, cynhesrwydd, os cânt glust i wrando a phobl yn siarad yn onest â nhw a phan ystyrir yr anghydbwysedd o ran pŵer.

Mae'r gweithdrefnau newydd yn nodi arweiniad ar gyfer ymholiadau Adran 47, gwneud penderfyniadau, a chynhadledd amddiffyn plant ac yn cyflwyno 'penderfyniadau' newydd.

Mae'r gweithdrefnau'n awgrymu y dylid ystyried rhoi gwybodaeth ddwyieithog ysgrifenedig ar gael, sy'n nodi diben, proses a chanlyniadau posibl yr ymholiadau A47 ynghylch diogelu plentyn.

Newidiadau/symudiadau allweddol yn yr ymarfer:

- Newidiadau mewn iaith a sut defnyddir termau megis 'Adrodd', 'Ymarferwyr', 'Swydd â Chyfrifoldeb.'
- Mae gweithdrefnau newydd yn rhoi manylion am y bobl y mae'r rhai sydd mewn 'Swydd â Chyfrifoldeb' yn cyfeirio atynt... ond mae hyn yn ymestyn ar yr hyn a gydnabyddir yn gyfreithiol ar hyn o bryd
- Yn flaenorol, amlinellid pum 'sbardun' posibl ar gyfer cynhadledd amddiffyn plant, nid ddefnyddir/cyfeirir at y rhain yn y gweithdrefnau newydd.
- Categoriâu newydd o gam-drin ariannol, cam-drin emosiynol a chamdriniaeth seicolegol: yn y rhestr termau mae'r rhain ar wahân, ond dânt yn un categori ar gyfer cofrestru

- Mae gweithdrefnau newydd yn amlinellu penderfyniadau yn dilyn cynnal ymholiadau A47 fel y nodir isod – roedd y penderfyniadau hyn yn yr hen weithdrefnau ac felly maent yn parhau heb eu newid, ond mae'r camau gweithredu sy'n dilyn y rhain wedi newid:

Penderfyniad 1: Nid yw'r pryderon o niwed sylweddol wedi'u cyfiawnhau

Nid oes sail i'r pryderon diogelu, ond dylid ystyried a oes gan y plentyn anghenion gofal a chymorth sydd heb eu bodloni. Felly, argymhell asesiad anghenion gofal a chymorth dan adran 20 y Ddeddf neu adrodd wrth y gwasanaethau atal. Dylai'r penderfyniad gael ei gadarnhau gan y rheolwr perthnasol a dylid anfon llythyr 'dim camau pellach' at y rhieni.

Penderfyniad 2: Mae sail i'r pryderon am niwed sylweddol ond nid yw'r plentyn mewn perygl o niwed sylweddol parhaus

Yn yr hen weithdrefnau, os ystyrid bod yr uchod yn berthnasol, awgrymid ystyried yn ofalus y penderfyniad i beidio â mynd ymlaen i gynhadledd, a byddai angen i unigolyn sydd â chymwysterau a ddynodwyd yn briodol yn y gwasanaethau cymdeithasol gymeradwyo'r penderfyniad hwn. Ymddengys bod hyn wedi'i hepgor o'r gweithdrefnau newydd.

Penderfyniad 3: mae sail i'r pryderon, a bernir bod y plentyn yn cael neu mewn perygl o gael ei gam-drin, ei niweidio neu'i esgeuluso.

Perygl parhaus o niwed sylweddol, felly dylai'r gwasanaethau cymdeithasol gynnwll cynhadledd amddiffyn plant.

Cynhadledd Amddiffyn Plant

- Mae'r gweithdrefnau newydd yn datgan bod yn rhaid i'r holl ymarferwyr ac asiantaethau a wahoddir i gynhadledd amddiffyn plant gyflwyno adroddiad ysgrifenedig.
- Ni ddylai cynadleddau bara mwy na 2 awr fel arfer, gan fod gweithdrefnau newydd yn cydnabod y gall hyn fynd yn wrthgynhyrchiol ac effeithio'n negyddol ar deulu ac ymarferwyr ac felly ansawdd y trafodion.
- Pwysleisir yn y gweithdrefnau newydd y dylid ystyried dichonoldeb dadansoddi a gwneud penderfyniadau ynghylch plant sy'n wynebu risg a'u brodyr a'u chwiorydd yn ystod un gynhadledd, os oes pryderon yn ymwneud â'r plant i gyd.
- Mae mwy o bwyslais yn y gweithdrefnau newydd ar gynnwll cynhadledd pan fo asesiad cyn-geni yn dod i'r casgliad y gall plentyn heb ei eni fod yn wynebu risg o niwed sylweddol. Nid yw'r gweithdrefnau newydd yn rhoi amserlenni ar gyfer trefnu'r gynhadledd, yn flaenorol roedd yn 8 – 16 wythnos o'r dyddiad geni disgwylidig.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn pwysleisio nad yw presenoldeb plentyn ar ei ben ei hun mewn cynhadledd yn cyfrif fel cymryd rhan na rhoi llais i'r plentyn, a dylai arferion/egwyddorion canolbwyntio ar y plentyn fod yn berthnasol. Mae'r gweithdrefnau newydd yn rhoi enghreifftiau o sut y gellir cyflawni hyn, gan gynnwys eiriolaeth dros y plentyn a'r rhieni.
- Mae angen gwybodaeth benodol gan wahanol asiantaethau ac mae'r gweithdrefnau newydd yn amlinellu pa wybodaeth y mae'n rhaid i gyrff sy'n cymryd rhan ei rhoi.
- Yn syth ar ôl y gynhadledd; disgwylir, os yw'r gynhadledd yn penderfynu rhoi enw'r plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant, i'r cadeirydd a'r gweithiwr cymdeithasol dreulio amser ar ôl y gynhadledd yn esbonio beth mae'r ffaith bod y plentyn yn destun cynllun amddiffyn gofal a chymorth yn ei olygu, beth mae cofrestriadau yn ei olygu, beth mae'n ofynnol i rieni ei wneud, rôl a chyfrifoldebau ymarferwyr a'r grŵp craidd, a sut y bydd y rhieni / plant yn cymryd rhan yn y broses hon yn y dyfodol.
- Gellir trafod adroddiadau meddygol amddiffyn plant yn y gynhadledd, ond ni ddylid eu dosbarthu gyda phapurau'r gynhadledd. DS: Arfer da fyddai crynhoi'r rhain.
- Newid o Gynllun Amddiffyn Plentyn i Gynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth, a ddylai gynnwys pob elfen o gynllun fel yr amlinellir yn Rhan 4 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

- Mae'r gweithdrefnau'n amlinellu'r broses gwneud penderfyniadau yn ystod cynhadledd amddiffyn plant gychwynnol. Dylai ymarferwyr sy'n cyfrannu at y gynhadledd benderfynu'r canlynol yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael:
 - a yw'r plentyn yn wynebu risg barhaol o niwed sylweddol AC
 - a oes angen ymyrraeth amlasiantaeth drwy gyfrwng cynllun amddiffyn gofal a chymorth ffurfiol a chofrestru'r plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant
- Dylid gwneud penderfyniadau ynghylch pob plentyn unigol, gan ganolbwyntio ar risg bresennol, debygol a/neu barhaus o niwed sylweddol, atgyfnerthir na all ymarferwyr ymbellhau oddi wrth eu cyfrifoldeb yn y broses gwneud penderfyniadau yn y gynhadledd
- Plentyn nad yw mewn perygl parhaus o niwed ond mae arno anghenion gofal a chymorth: dylid annog rhieni i barhau ag asesiad lles dan Rhan 3 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn cyflwyno rôl **Cydlynnydd Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth**.
 - bydd y person hwn yn weithiwr cymdeithasol a gyflogir gan y gwasanaethau cymdeithasol, wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, sydd â chymwysterau a phrofiad addas i gymryd cyfrifoldeb arweiniol am y cynllun ar ran yr awdurdod lleol.
- Dylai pob plentyn, y mae ei enw'n cael ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, gael unigolyn penodol (h.y. Gweithiwr Cymdeithasol) a fydd yn ymgymryd â rôl y Cydlynnydd.
- Bydd y Cydlynnydd Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth yn gyfrifol am baratoi, cwblhau, adolygu, cyflawni ac addasu'r cynllun.
- Er mai 35 diwrnod oedd yr amserlen ar gyfer cwblhau'r asesiad parhaus (yn ôl Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan), mae'r gweithdrefnau newydd yn nodi amserlen o 42 diwrnod gwaith o ddechrau'r ymholiadau A47.

Adran 4

CYNLLUNIO AC YMYRRAETH AR GYFER PLANT SYDD AR Y GOFRESTR AMDDIFFYN PLANT

Mae'r gweithdrefnau newydd yn amlygu'r angen am gerrig milltir sy'n canolbwyntio ar y plentyn a mesuriadau canlyniadau penodol i sicrhau bod pob aelod o'r grŵp craidd yn deall sut bydd bywyd y plentyn/plant ar adeg dad-gofrestru. Mae Adran 4 yn amlinellu cyfrifoldebau'r Cydlynnydd Cynllun Gofal a Chymorth, a'r sgiliau a'r dull gweithredu mae eu hangen i gyflawni canlyniadau sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Er mwyn helpu i ddatblygu'r cynllun, mae'r gweithdrefnau newydd wedi llunio cwestiynau i helpu i gyflawni'r cynllun.

Newidiadau/symudiadau allweddol yn yr ymarfer:

- Mae cyfrifoldebau y Cydlynnydd Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth yn cynnwys cydlynu'r gwaith paratoi, cwblhau, adolygu, cyflawni a diwygio'r Cynllun Amddiffyn a Chymorth
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn cyflwyno cwestiynau i gefnogi datblygiad y cynllun:
 - Cyd-ddealltwriaeth o'r pryderon
 - Yr hyn mae'r rhiant/rhieni a'r plentyn eisiau ei gyflawni
 - Sut byddai profiadau bob dydd y plentyn ped eid i'r afael â'r pryderon?
 - Mesurau canlyniadau terfynol
 - Sut y bydd y grŵp craidd yn mesur newid graddol
 - Gallu a chymhelliant y rhieni i gymryd rhan yn y cynllun

- Sut i adeiladu ar gryfderau rhieni
- Rhwystrau rhag newid
- Sut gall ymarferwyr ddangos eu hymrwymiad i gefnogi a gweithio gyda'r teulu
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn annog yr holl aelodau sy'n ymarferwyr i gymryd rhan yn y grŵp craidd. Fodd bynnag, os nad yw aelod o'r grŵp craidd yn gallu mynychu'r cyfarfod, dylai ddarparu adroddiad sy'n cynnwys digon o fanylion er mwyn gallu asesu'r holl bartïon ac ymgysylltu â'r cynllun.
- Mae'r gweithdrefnau'n pwysleisio ar ba mor bwysig yw hi i rieni/gofalwyr ymgysylltu'n weithredol â'r grŵp craidd a rhoi'r cynllun ar waith.
- Mae'r gweithdrefnau'n dweud bod yn rhaid i ymgysylltu ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau sy'n canolbwyntio ar y plentyn a bod cyd-gynhyrchu yn hanfodol.
- Mae'r adran hon yn cynnwys awgrymiadau ar arfer da ar gyfer cyflawni cyd-gynhyrchu.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn annog ystyried/defnyddio anghenion rhieni.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn annog ymarferwyr i beidio â "glanhau" iaith i ddisgrifio sefyllfaoedd, ond yn hytrach i fynegi eu pryderon yn glir
- Cyfranogiad aelodau'r Grŵp Craidd mewn cynadleddau adolygu - dylai pob un o adroddiadau'r ymarferwyr gael eu rhannu wyneb yn wyneb â'r plentyn a'i deulu, pan fo'n briodol, i ennyn trafodaeth a hynny o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y gynhadledd adolygu.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn caniatáu nesáu dyddiad cynhadledd adolygu os nad yw'r cynllun yn amddiffyn y plentyn rhag niwed neu os yw ymarferwyr yn cael problemau sylweddol wrth weithredu'r cynllun.
- Pan ddaw'n hysbys bod teulu â phlentyn y mae ei enw ar y gofrestr amddiffyn plant wedi symud, neu'n bwriadu symud, naill ai'n barhaol neu dros dro, allan o ardal yr awdurdod lleol, rhaid i'r sawl sy'n cael y wybodaeth hon roi gwybod yn syth i'r rheolwr tîm perthnasol a'r Cydlynnydd Cynllun Amddiffyn, Gofal a Chymorth.
- Does dim newid yn y wybodaeth ysgrifenedig y mae'n rhaid ei hanfon i'r awdurdod derbyn
- Nid oes amserlenni wedi'u cofnodi yn y gweithdrefnau newydd sy'n ymwneud ag ymateb i ymholiadau i'r Gofrestr Amddiffyn Plant. Rhaid i bob ymholiad gael ei gofnodi ar gronfa ddata'r Gwasanaethau Cymdeithasol, o fewn 24 awr.

Adran 5

PRYDERON DIOGELU AM YMARFERWYR A'R RHAI SYDD MEWN SWYDDI GYDA CHYFRIFOLDEB

Mae Adran 5 yn nodi ymateb statudol yr Awdurdod Lleol i bryderon proffesiynol. Mae'r gweithdrefnau'n nodi y dylid mynd i'r afael â phryderon proffesiynol drwy broses ar wahân a all gydredeg â'r broses ddiogelu, neu yn absenoldeb plentyn y nodwyd ei fod yn wynebu risg, ar ei phen ei hun.

Newidiadau/symudiadau allweddol yn yr ymarfer:

- Mae'r gweithdrefnau newydd yn cynyddu cwmpas y bobl mae hyn yn berthnasol iddynt.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn pwysleisio ar y ddyletswydd i roi gwybod am bryderon am ymarferwyr (gweler adran 5), ac yn amlygu pwysigrwydd *polisiau chwythu'r chwiban* asiantaethau.

Y camau/gwaith sy'n ofynnol:

- Ystyried/egluro rôl y 'Swyddog Dynodedig ar gyfer Diogelu' gan nad oes sôn yn y gweithdrefnau newydd y gellir dirprwyo hyn i asiantaethau partner megis iechyd.